Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**

*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

## Prosiect Trawsnewid Anabledd Dysgu Gogledd Cymru

# Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau Di-dor ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu

Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council · Conwy · Cyngor Sir Ddinbych / Denbighshire County Council · Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council · Cyngor Gwynedd Council · Wrexham / Wrecsam · GIG Cymru / NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board · Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru / North Wales Social Care and Well-being Services Improvement Collaborative

Ni yw Prosiect Gweddnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru (Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau Di-dor ar gyfer Pobl gydag Anableddau Dysgu)
Yn y llyfryn hwn cewch wybodaeth ynghylch y Prosiect, yr hyn yr ydym yn ei wneud a pham, a sut y gallwch gymryd rhan.

## Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau Di-dor i Bobl gydag Anableddau Dysgu yw un o bedwar Prosiect Gweddnewid yng Ngogledd Cymru. Dyna'r rheswm pam ein bod hefyd yn cael ein galw'n Prosiect Gweddnewid Anableddau Dysgu.

Ein nod yw cefnogi pobl a sefydliadau i sicrhau fod pobl sydd ag anableddau dysgu yn gallu byw bywyd da. Mae hyn yn golygu nifer o bethau gan gynnwys gallu byw yn fwy annibynnol, a chael y gofal a chefnogaeth gywir yn agosaf i gartref.

Drwy gefnogi gweithio gwell ar y cyd a dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, rydym eisiau hyrwyddo model di-dor o gefnogaeth anableddau dysgu – ar sail beth sydd o bwys i'r unigolyn.

Cydgynhyrchiad – gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth wirioneddol – sydd yn ganolog yn yr hyn yr ydym yn ei wneud.

Mae gan y Prosiect bum ffrwd waith gwahanol:

- **Strwythurau Integredig** – i'w integreiddio o fewn 10 mlynedd
- **Datblygu'r Gweithlu** – mae staff yn gallu cyfathrebu a newid gwasanaethau i'w wneud yn haws i bobl ag AD eu defnyddio
- **Comisiynu a Chaffael** – tai a gwasanaethau cynnal Cymuned a newid diwylliant – mynediad i weithgareddau, cyfleoedd i gwrdd â phobl newydd a mynediad at waith
- **Technoleg Gynorthwyol** – defnyddio technoleg i wneud pobl yn fwy annibynnol

# Strwythurau Integredig

**Sicrhau bod gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd yn well i gefnogi pobl ag anableddau dysgu.**

- Lleihau dyblygu systemau cofnodi fel nad yw pobl yn gorfod dweud yr un peth fwy nag unwaith…
- Gofalu bod digon o gefnogaeth gydag anawsterau iechyd pobl hŷn ag anableddau dysgu, gan gynnwys pobl gyda dementia.
- Adolygu'r systemau a'r gefnogath sydd ar gael ar gyfer unigolion a'u teuluoedd o ran diagnosis ac asesu.

# Datblygu'r Gweithlu

**Sicrhau fod staff yn gwybod sut i gyfathrebu'n dda â phobl ag anableddau dysgu a newid gwasanaethau fel eu bod yn haws i'w defnyddio. Bydd hyn yn helpu pobl i gael y gofal iechyd sydd ei angen arnynt. Sicrhau fod pobl sydd eisiau cefnogaeth yn y Gymraeg yn gallu ei chael heb orfod gofyn.**

- Dod â gwahanol rannau o'r gweithlu at ei gilydd i rannu arfer gorau.
- Datblygu set sgiliau cyson, seiliedig ar werth ar gyfer staff ar draws y rhanbarth.
- Codi ymwybyddiaeth mewn modd hygyrch o ffyrdd iach o fyw a lles meddyliol ymysg pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gweithwyr cefnogi.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd



# Comisiynu a Chaffael

**Gweithio gyda sefydliadau eraill i wneud yn siŵr bod gennym y mathau o dai a'r gefnogaeth y mae pobl eu hangen.**

- Archwilio a pheilota cyllidebau cyfun rhwng iechyd a gofal cymdeithasol mewn ardaloedd
- Darparu modelau cynaliadwy o gefnogaeth ar y cyd gan iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn diwallu anghenion unigolion ag anghenion cymhleth. Dylai hyn gynnwys mynd i'r afael â'r angen sydd heb ei ddiwallu am leoliadau nyrsio safon uchel a noddir ar y cyd ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu difrifol a chanddynt hefyd anghenion iechyd.
- Parhau i archwilio a datblygu opsiynau tai i ddiwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.
- Gwella'r defnydd o, a'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer cyllidebau cynnal / taliadau uniongyrchol.
- Cefnogi gofalwyr hŷn a sicrhau eu bod yn cael y gwasanaethau cefnogi a'r seibiannau gofalwyr sydd eu hangen arnynt. Dylai hyn gynnwys gwasanaethau 'cynllunio ymlaen llaw' ar gyfer teuluoedd, sy'n cynnwys gwaith i adnabod gofalwyr cudd ac asesu eu hanghenion cefnogaeth.



# Newidiadau yn y gymuned ac i ddiwylliant

**Gweithio gyda'r gymuned leol i sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn cael mynediad at lawer o wahanol weithgareddau a chwrdd â phobl newydd os ydynt am wneud hynny. Helpu mwy o bobl ag anableddau dysgu i gael swyddi cyflogedig.**

- Gweithio gyda chyflogwyr i ddatblygu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn ogystal â chyfleoedd dydd eraill
- Gweithio gyda llywyr cymunedol, cydlynwyr ardal a modelau rhagnodi cymdeithasol i helpu pobl i ddarganfod mwy am y grwpiau a'r gweithgareddau cymunedol sydd ar gael yn eu hardal a'u cefnogi nhw i gymryd rhan.
- Gweithio gyda'r gweithwyr cefnogol i hwyluso cyfeillgarwch a pherthnasoedd ar gyfer pobl ag anableddau a hyrwyddo cymryd risgiau cadarnhaol.

# Technoleg Gynorthwyol

**Dod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio technoleg fel larymau a ffonau symudol i gynorthwyo pobl i fod yn fwy annibynnol.**

- Datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyfforddiant ar botensial technoleg sydd eisoes yn bodoli (megis ffonau symudol a chynorthwywyr personol a reolir â'r llais e.e. Alexa) i gefnogi pobl ag anableddau dysgu.
- Datblygu darpariaeth Technoleg Gynorthwyol a chymhorthion cyfathrebu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.
- Rhoi mwy o gefnogaeth i bobl aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

# Pam ein bod ni'n gwneud hyn

## Yn ôl Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru:

**810**
o blant gydag AD dwys (160) neu ddifrifol (650) yng Ngogledd Cymru

**5000**
o blant gydag anawsterau dysgu

**2,900**
o oedolion gydag AD yn derbyn gwasanaethau

Bydd y rhagamcanion yn **cynyddu** dros yr ychydig flynyddoedd nesaf ac yna'n gostwng ychydig erbyn 2035.

Mae niferoedd pobl hŷn gydag AD yn debygol o gynyddu o **20%** i **35%** erbyn 2035

Mae'r asesiad poblogaeth llawn, yn cynnwys fersiwn hawdd ei ddarllen a chlywedol ar gael ar-lein
**https://www.northwalescollaborative.wales/north-wales-population-assessment**

## Mae Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru 2018 - 23 yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer ein gwaith:

Y weledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru yw cynnig ansawdd bywyd gwell i bobl sydd ag anableddau dysgu; a'u galluogi nhw i fyw yn lleol mewn rhywle diogel, lle y maent yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn eu cymunedau a chanddynt fynediad at gymorth personol effeithiol sy'n hyrwyddo annibyniaeth, dewis a rheolaeth.

Mae'n hyrwyddo egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gynnwys:

- Llais a rheolaeth
- Ataliaeth ac ymyrraeth gynnar
- Lles
- Cyd-gynhyrchu

**AC YN**

- Canolbwyntio ar sut y gall Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol weithio gyda'i gilydd i sicrhau cynhwysiad ac integreiddiad

## Cynhyrchwyd y Strategaeth ar y cyd â phobl ag anableddau dysgu, rhieni / gofalwyr a staff. Yn ôl y bobl, y prif bethau oedd yn bwysig iddynt oedd:

- Bod â rhywle o safon i fyw
- Bod â rhywbeth ystyrlon i'w wneud
- Ffrindiau, teulu a pherthnasoedd
- Bod yn ddiogel
- Bod yn iach
- Cael y gefnogaeth iawn



# Sut i gymryd rhan

Bydd y Prosiect yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru (drwy Cymru Iachach) tan ddiwedd Chwefror 2021. Byddwn yn parhau i gydgynhyrchu a cheisio ffyrdd gwahanol o weithio, i geisio gwneud newidiadau cynaliadwy, cadarnhaol i fywydau pobl gydag anableddau dysgu.

Mae'r cwmni ymgynghoriaeth IPC Oxford Brookes wedi eu penodi i werthuso effaith yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn awyddus iawn i weithio a chydgynhyrchu gyda phobl ag anableddau dysgu, rhieni/gofalwyr a staff ar draws Gogledd Cymru, ac mae yna nifer o ffyrdd y gallwch chi gyfrannu.

# Am ragor o wybodaeth cysylltwch â ni:

Learning.disability.transformation@flintshire.gov.uk

01352 701303

Tŷ Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint CH5 3FF

Mae ein manylion cyswllt isod:

| Enw | Ffrwd waith | Cyfeiriad E-bost |
|---|---|---|
| Kathryn Whitfield | Rheolwr Rhaglen | Kathryn.whitfield@flintshire.gov.uk |
| Sian Croston | Datblygu Gweithlu | Sian.Croston@flintshire.gov.uk |
| Paul Mazurek | Technoleg Gynorthwyol | Paul.Mazurek@flintshire.gov.uk |
| Kim Killow | Strwythurau Integredig | Kim.Killow@flintshire.gov.uk |
| Liana Duffy | Newid Cymunedol a Diwylliannol | Liana.Duffy@flintshire.gov.uk |
| Steve Brown | Comisiynu a Chaffael | Steve.brown@flintshire.gov.uk |
| Paul Hosker | Arweinydd/Cyswllt Iechyd | Paul.Hosker@flintshire.gov.uk |
| Jeni Andrews | Swyddog Cyswllt Sir Ddinbych/Conwy | Jeni.Andrews@flintshire.gov.uk |
| Sioned Williams | Swyddog Cyswllt Ynys Môn/Gwynedd | Sioned.Williams@flintshire.gov.uk |
| Beverley Futia | Swyddog Cyswllt Sir y Fflint | Beverley.Futia@flintshire.gov.uk |
| Mark John-Williams | Swyddog Cyswllt Wrecsam | Mark.John-Williams@flintshire.gov.uk |

TogetherYnghyd

LDTransformationInfo

www.gogleddcymrugydangilydd.org